# Gweld gallu, nid anabledd yn unig

Mae gen i sawl anabledd: dyspracsia, awtistiaeth, anableddau dysgu, Syndrom Irlen.

Dw i hefyd yn gweithio'n galed a dw i'n gallu talu sylw anhygoel i fanylion. Dw i'n casglu recordiau finyl a phethau diddorol.

Dw i wrth fy modd â ffotograffiaeth. Dechreuais wneud ffotograffiaeth pan oeddwn i'n ifanc i fy helpu i ymdopi â heriau bywyd a meithrin fy hyder wrth fynd i wahanol leoedd.

Mae pob lle yn wahanol. Rwy'n cael cyfarfod â phob math o bobl o bob cefndir. Dw i wastad wedi meddwl bod clywed straeon am fywydau pobl yn ddiddorol. Yn dibynnu ar y person, dw i'n hoffi rhannu profiadau o anabledd gyda phobl hefyd.

Mae ffotograffiaeth yn fy nghysylltu i â'r byd y tu allan. Mae'n fy atal rhag teimlo'n gaeth. Dw i'n hoffi dangos y ffotograffau rydw i wedi'u creu i bobl.

Mae gen i ddiddordeb mewn tynnu lluniau o'r rhan fwyaf o bethau. Gall hyn gynnwys ffotograffiaeth stryd, ceir, cerddoriaeth, cyngherddau, portreadau a thynnu hunanbortreadau anarferol.Dw i wedi arddangos fy ngwaith mewn orielau ac wedi cyhoeddi rhai lluniau hyd yn oed.

Fe wnes i fynd i ysgol arbennig a oedd dros 40 milltir i ffwrdd o gartref. Roedd y dyddiau'n hir, 12 awr o hyd. Roeddwn yno o'r amser roeddwn i'n 12 oed ymlaen, ond roeddwn i'n mwynhau'r ysgol.

Yn ystod fy mlwyddyn olaf roeddwn i wedi magu digon o hyder i fynd ar daith i'r Swistir.

Gadewais yr ysgol gydag addewid o le mewn coleg celf. Ond yn anffodus, dim ond bythefnos yn ddiweddarach, dywedwyd fod fy anghenion yn rhy fawr. Ac yr adeg honno, cefais gyngor i fynychu cwrs byw'n annibynnol am flwyddyn neu ddwy cyn mynd nôl i wneud cwrs celf.

Dilynais y cyngor a dysgais sgiliau gwahanol dros y tair blynedd y bûm yno, ac yna cefais fy nerbyn i fynd yn ôl ar y cwrs. Ond, bum diwrnod yn ddiweddarach, cynhaliwyd cyfarfod i ddweud, yn anffodus, na fyddai fy sgiliau Mathemateg a Saesneg yn ddigon da i barhau â'r cwrs.

Er gwaethaf cyfarfodydd pellach i geisio datrys y broblem, dywedwyd mai dyma oedd diwedd fy nhaith addysgol.

Dymunwyd pob lwc i mi a chefais gyngor i gofrestru fel un nad oedd yn addas i weithio. Roeddwn i'n 20 oed ac roedd gen i obeithion a breuddwydion i fod yn artist a ffotograffydd yn y dyfodol. Chwalwyd fy mreuddwydion a daeth fy mywyd i stop mewn sawl ffordd.

Does dim trefn arferol yn fy mywyd, dim llawer i godi amdano, oni bai bod fy nheulu wedi trefnu tripiau i mi.

Dw i wedi parhau i dynnu lluniau a'u golygu. Mae gen i fy nghamera gyda fi drwy'r amser. Rwy'n credu bod celf a ffotograffiaeth yn ffurf o gyfathrebu.

Pam mae'n rhaid i chi gael tystysgrifau a safonau mewn Saesneg a Mathemateg er mwyn gallu dysgu mynegi eich hunain ar ffurf celf sydd, yn draddodiadol, yn ddieiriau?

Mae gan gelf bŵer aruthrol i gynrychioli meddyliau rhywun. Drwy'r oesoedd, mae pobl wedi defnyddio delweddau i gyfathrebu, o luniau mewn ogofâu i furluniau cyfoes.

Dydy fy anableddau ddim wedi llesteirio fy nhalentau, ond mae'r system addysg, yn fy marn i, wedi gwneud hynny. Mae bywyd yn dod â'i heriau ei hun ac yn aml, mae'r un peth yn digwydd gydag anableddau.

Yn hytrach na chefnogi a helpu, mae addysg wedi dileu fy hawl i ddysgu gyda chefnogaeth. Dw i wedi parhau i ddysgu ond roedd rhaid i mi wneud hyn ar fy mhen fy hun.

Dw i wedi dysgu fy hun a dw i'n estyn allan at eraill am gefnogaeth a chyngor. Dw i'n chwilio am bethau ar Google, dw i'n edrych ar lyfrau ac yn gwylio YouTube ar fy mhen fy hun.

Does gen i ddim rhwydwaith go iawn o gyfoedion i gael cefnogaeth. Pe bawn i wedi gallu astudio yn yr un ffordd ag y mae pobl eraill, efallai y byddai gen i fwy o gyfleoedd a byddwn i'n llai unig ac ynysig.

Mae data gan y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol yn 2019 yn dangos fod 76% o oedolion awtistig wedi gofyn am gymorth iechyd meddwl yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Ac mae adroddiad newydd gan Brifysgol Abertawe yn 2023 yn dweud bod pobl awtistig yn fwy tebygol o fod yn unig na phobl niwronodweddiadol. Maen nhw hefyd yn llawer mwy tebygol o deimlo gofid oherwydd yr unigrwydd.

Mae adroddiad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai dim ond 21% o bobl awtistig sydd mewn cyflogaeth, ac o'r holl grwpiau anabl, pobl awtistig sy'n dal i wynebu'r cyfraddau uchaf o ddiweithdra.

Dw i'n gofyn am dri pheth.

Rhif un - i bobl gael gwell dealltwriaeth a gwybodaeth am awtistiaeth ac anableddau dysgu.

Rhif dau - i addysg gefnogi talent a chael gwared ar y ffiniau sy'n cael eu gosod o ran cymwysterau.

Rhif tri - cymorth i gael gwaith ac yn ystod cyflogaeth. Creu cymuned yn y gweithle sy'n helpu i reoli pryder.

Ac i gymdeithas weld bod awtistiaeth yn ymwneud â gallu yn ogystal ag anabledd. Efallai fy mod i'n cael trafferth gyda rhai pethau, ond mae gen i feddwl sy'n anhygoel o ran ffocws a manylion.

Dw i eisiau gweithio, dw i eisiau bod yn gynhyrchiol a dw i eisiau ffrindiau.